


Rhwydwaith Arddangos

Cymharu gwahanol ddulliau o ychwanegu cobalt mewn Wŷn

Roedd profion ar safle arddangos Aberbranddu wedi nodi diffyg cobalt yn yr wŷn, a datblygwyd prosiect i gymharu gan ddefnyddio chwistrelliad cobalt (Smartshot) gyda bolws drwy fonitro cynnydd pwysau byw (DLWG) yr wŷn yn dilyn y triniaethau.

Rhyw	Nifer yr wŷn	Cynnydd Pwysau Byw (DLWG) y grŵp bolws mewn g	Nifer yr wŷn	DLWG y grŵp Smartshot mewn g
Gwryw	150	180	127	190
Benyw	127	90	155	90
Cost/oen £	£0.50/oen		£0.75/oen	

Cymharu DLWG (g/dydd) prawf cobalt ar hap mewn wŷn dros gyfnod o ddeufis



Mae'r canlyniadau'n dangos nad oes gwahaniaeth o ran perfformiad, felly mae'r dewis i driniaeth yn ddbynnol ar:

Allbynnau allweddol yn deillio o'r prosiect:

- Cost
- Rhwyddineb y driniaeth
- Amllder y triniaethau

Cyflwyniad Prosiect: Sicrhau'r cyfraddau beichiogi gorau posibl ar gyfer wŷn benyw

Bydd prosiect yn canolbwyntio ar sicrhau'r cyfraddau beichiogi gorau posibl mewn wŷn benyw yn dechrau'n fuan ar safle arddangos newydd Cyswllt Ffermio yn Halghton Hall, Wrecsam. Nod y prosiect yw canfod y pwysau beichiogi a'r cyflwr gorau posibl ar gyfer wŷn benyw. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at ganfod y canran sganio mwyaf cynaliadwy ar gyfer wŷn benyw gan eu bod yn geni wŷn am y tro cyntaf, cyn cael eu cyflwyno'n ôl i'r brif ddiadell.

Yn dilyn canlyniadau'r astudiaeth gwaelodlin a gynhyrchwyd ar gyfer y fenter ddefaid yn Halghton Hall, un o'r dangosyddion perfformiad allweddol fydd i gynyddu cyfraddau beichiogi'r wŷn benyw o 60% i 90%+ dros gyfnod o dair blynedd.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth



Cyhoeddwyd erthygl dechnegol 'Sicrhau'r diet gorau i fuchod laeth i wella eu hiechyd' ym mis Tachwedd. Mae'n amlinellu sut mae gofynion y fuchod laeth yn amrywio yn ystod ei chylchred gynhyrchu a sut mae bodloni'r gofynion hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau iechyd a chynhyrchiant y fuchod.

Mesur cyfraddau twf heffrod ar system bori cylchdro

Mae'r prosiect hwn ar safle arddangos Llys Dinmael yn edrych ar y ffordd orau o reoli heffrod ar system bori cylchdro i sicrhau'r cyfraddau twf gorau a'r defnydd gorau o'r borfa. Mae Llys Dinmael yn fferm ddefaid ucheldir gyda phrofiad helaeth o reoli'r borfa. Maent wedi prynu 20 o heffrod Holstein-Friesian yn 4 wythnos oed a byddant yn eu magu a'u gwerthu fel heffrod sydd newydd ddod â lloi yn 24-28 mis oed. Bydd yr heffrod yn pori ochr yn ochr â'r systemau pori cylchdro presennol ar gyfer y defaid, ac yn ystod eu gaeaf cyntaf, byddant yn cael eu cadw yn yr awyr agored drwy'r gaeaf ar ddietau o fetys porthiant a silwair byrnau mawr.

Rhwng Gorffennaf a Hydref 2019, bu'r heffrod yn pori ar system bori cylchdro gan symud bob deuddydd, gyda'r gorchudd yn dechrau ar 2500-2700kg/ha ac yn cael eu pori hyd at 1500kg/ha pan oeddent yn gadael y cae. Wedi hynny, fe wnaethon nhw symud i bori betys porthiant ar ffurf sribedi'r tu ôl i ffens drydan gyda silwair byrnau mawr.

Ar ddiwedd mis Tachwedd, roedd y DLWG yn 0.89kg/dydd ar gyfartaledd, a chafodd hyn ei gyflawni gan ddefnyddio 6kg/pen/dydd o fetys porthiant a silwair byrnau mawr.

Bydd yr heffrod yn parhau i gael eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod cyfraddau twf targed yn cael eu cyflawni dros y gaeaf. Bydd penderfyniadau ynglŷn â dyddiadau troi at y tarw'n cael eu gwneud gan ddiwyddu ar gyfraddau twf a'r dyddiau dewisol ar gyfer dod â lloi.

Afiechydon 'rhewfryn' mewn defaid

Prif nod y prosiect hwn ar fferm College Farm oedd datblygu dealltwriaeth lawn o statws iechyd gwirioneddol y ddiadell, i ganfod unrhyw afiechydon sy'n bresennol, gan ganolbwyntio'n benodol ar afiechydon 'rhewfryn'. Llwyddodd y prosiect i ganfod pa afiechydon a oedd yn bresennol yn ogystal â datblygu mesurau effeithiol i'w rheoli a'u hatal er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

Cymerwyd samplau gwaed o gyfanswm o 18 o famogiaid i'w difa a oedd yn cael eu gwerthu o ganlyniad i ddiffyg cyflwr, a chawsant brofion ar gyfer clefyd Johne, Caseous Lymphadenitis, clefyd y Ffin a Maedi Visna. Cafwyd canlyniadau negyddol ar gyfer pob un o'r afiechydon hyn. Cynhaliwyd hefyd brofion cyfrif wyau ysgarthol ar y grŵp yn ogystal â phroffion coproantigen ar gyfer llyngyr, gyda chanlyniad pob un yn negyddol.

Cynhaliwyd pedwar archwiliad post mortem drwy gydol y flwyddyn ar famogiaid a oedd wedi marw oherwydd achosion aneglur neu'n sydyn. O'r pedwar archwiliad post mortem, canfuwyd clwyfau tiwmor ar ysgyfaint dwy famog, ac yn dilyn archwiliad histoleg, cadarnhawyd mai clefyd OPA (Ovine Pulmonary Adenocarcinoma) neu Jaagsiekte oedd yn gyfrifol. Niwmonia a achosodd farwolaeth y ddwy famog, ond o ganlyniad i haint elaidd yn deillio o OPA.

Yn dilyn y canlyniadau, cafodd cynllun iechyd y ddiadell ei adolygu a'i addasu i gyd-fynd â chanfyddiadau'r prosiect. Cafodd y defaid a oedd yn cario'r afiechyd eu difa ar unwaith er mwyn cynnal iechyd a chynhyrchiant y ddiadell. Yn y dyfodol, bydd y ddiadell ar fferm College Farm yn cael eu sganio'n rheolaidd ar gyfer OPA.

Allbynnau allweddol y prosiect:

- Amlygu pwysigrwydd lleihau'r risg o afiechydon
- Hyrwyddo pwysigrwydd cynllunio iechyd diadelloedd
- Mae sgrinio iechyd rheolaidd yn fuddiol er mwyn cynnal perfformiad y ddiadell.

Cyfnewidfa Rheolaeth

Cyfnewidfa Rheolaeth Gary Yeomans, Medi 2019


Pwnc: Gwell technegau bridio mewn geifr godro gan gynnwys defnyddio technegau ffrwythloni artiffisial (AI) **Gwlad:** Ffrainc

Yn ystod mis Medi, teithiodd Gary i Ffrainc i gwblhau ei gyfnewidfa rheolaeth. Bu Gary yn ymweld â phencadlys Capages, undeb o fridwyr geifr cydweithredol, gan roi gwell dealltwriaeth iddo o sut y gall ffrwythloni artiffisial (AI) helpu i wella perfformiad gyrruodd geifr godro. Gan ddefnyddio technegau AI o Ffrainc, mae Gary wedi llwyddo i gynyddu llwyddiant y gyr o 38% (gan ddefnyddio milfeddyg lleol) i 48%. Mae'n annog ffermwyr eraill sy'n cadw geifr yng Nghymru i groesawu cysyniad AI yn eu gyrruodd i sicrhau nifer o fanteision.

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae'r graff isod yn dangos nifer y mynychwyr fesul modiwl ar gyfer y gweithdai a gyflwynwyd hyd at ddiwedd Tachwedd 2019. Y modiwl yn trafod TB Buchol oedd y modiwl fwyaf newydd i gael ei ychwanegu at y ddarpariaeth.

Ceir cynnydd yn niferoedd y gweithdai a ddarparwyd o fis Hydref ymlaen, sy'n bennaf o ganlyniad i'r cyrsiau defaid tymhorol gan gynnwys Colledion Wŷn a modiwlau Rheoli Parasitiaid, yn ogystal â BVD, clefyd Johne a Mastitis, a oedd hefyd yn fodiwlau poblogaidd.



Grwpiau Trafod

Deall a Dehongli Data Genomeg mewn Gwartheg Godro

Richard Millar, Rheolwr Busnes Genomeg gydag NMR, oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod Grŵp Trafod Llaeth Gwent Levels. Amcanion y cyfarfod oedd:

- Asesu canlyniadau Genomeg a defnyddio adnoddau dadansoddi i gynorthwyo ac i ddehongli data
- Pam fod Genomeg yn adnodd allweddol sy'n helpu i ddatglo potensial y fuches?

Cyflwynodd Richard aelodau'r grŵp i adnodd dadansoddi Genomeg a phwysleisiodd bwysigrwydd defnyddio adnoddau o'r fath i helpu i wneud penderfyniadau bridio.

Crynodeb o Ganlyniadau'r Grŵp

Dangoswyd a thrafodwyd crynodeb o ganlyniadau'r grŵp yng nghyfarfod £PLI, Llaeth (Kg), Braster (Kg), Protein (Kg), Braster (%), Protein (%), Hyd oes, Cyfrif Celloedd Somatig a'r Mynegai Ffrwythlondeb.

Adolygwyd y gwerthoedd uchaf, isaf a'r cyfartaledd ar gyfer pob categori.

Pwysigrwydd Genomeg

Mae geneteg yn galluogi ffermwyr i ddedol bridiau'n gywir ac i leihau'r canran o anifeiliaid sy'n cael eu dewis yn anghywir ar gyfer bridio yn seiliedig ar Gyfartaledd y Rhieni (PA). Mae hefyd yn helpu i ganfod anifeiliaid sy'n addas ar gyfer bridio na fyddent wedi cael eu dewis fel arall yn ôl y PA.

I gloi, cyflwynodd Richard grynodeb o fanteision genomig:

- Mae genomeg yn adnodd dibynadwy iawn ar gyfer dethol anifeiliaid bridio
- Mae adnabod y rhai i BEIDIO â'u defnyddio ar gyfer bridio yn allweddol er mwyn gwneud cynnydd sydyn
- Mae gwella strategaeth y bridwyr yn cwblhau'r strategaeth fridio gorau posibl
- Sgorau cyfansymiol £PLI a rhinweddau math
- Gallu trosglwyddo rhagfynegol (PTA) llawn ar lefel y Kg ac ar lefel Cyfansoddiadol
- Nodweddion allweddol o ran proffidoldeb gan gynnwys ffrwythlondeb, hirhoedledd, cyfrif celloedd somatig a rhif adnabod y tarw
- 'Full Linear assessment equivalent'
- Ystod o ganlyniadau anhwylderau genetig enciliol
- Sgôr Mantais TB – gallai fod yn adnodd pwysig iawn yn y dyfodol
- Llai o deirw pur a chynnydd mewn gwerth llo.

Partneriaeth Arloesi Ewrop

Asesu potensial cynnal profion genomig ar heffrod i gynyddu enillion geneteg ac elw ariannol

- Cynhaliwyd profion genomig ar 432 o heffrod ar draws naw fferm fel rhan o'r prosiect.
- Mae'r canlyniadau hyd yma'n dangos y byddai 46 o'r anifeiliaid (Tabl 1) wedi cael eu bridio'n anghywir gyda gwartheg llaeth drwy ddefnyddio'r ffigwr £PLI safonol a ddefnyddir ar gyfer y fuwch a'r tarw, o ganlyniad i oramcangyfrif eu gwir werth £PLI.
- Ar sail canran, byddai 73% o'r anifeiliaid wedi cael eu bridio'n gywir; byddai 5.2% wedi cael eu bridio'n anghywir gyda biff a 21.3% wedi cael eu bridio'n anghywir gyda llaeth gan ddefnyddio'r gwerth £PLI.
- Mae'r penderfyniad i fuddsoddi mewn profion genetig yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau bridio mwy cywir ac ni fydd gwelliannau i'r fuches yn cael eu peryglu drwy fridio'r anifail anghywir.

Tabl 1. Sefyllfaoedd Bridio Damcaniaethol

Tarddiad/Sefyllfa £PLI	Wedi'u bridio gyda Gwartheg Biff	Wedi'u bridio gyda Gwartheg Llaeth
£PLI Cyfartalog y fuwch a'r tarw	52	235
£PLI Genomig	98	189

Y Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cyngor drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Mae 17 o unigolion wedi derbyn cyngor un i un drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Mae 24 o grwpiau wedi derbyn cyngor drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ynglŷn â'r cyngor a roddwyd:

"Mae'r cyngor wedi ein cynorthwyo i fwydo gwartheg yn gywir ac felly i wella ffrwythlondeb gwartheg a chynyddu elw'r fferm."

E-ddysgu

Mae enghreifftiau o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

CLEFYD JOHNE
MEWN DEFAID



YSGOTHIYMYSG
LLOI



CLOFFNI
MEWN DEFAID



PARASITIAID
MEWN DOFEDNOD



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Cyrsiau Hyfforddi

Enw'r Cwrs	Nifer a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn
Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel	17
Cneifio Defaid gyda Pheiriant	16
Cneifio Defaid lefel uwch gyda Pheiriant	11
Defnyddio Meddyginiaeth Filfeddygol yn Ddiogel	11
DIY AI	9